Tŷ Afon, Ffordd Bedwas
Bedwas, Caerffili,
CF83 8WT

029 2085 9696

Tŷ Afon, Heol Bedwas
Bedwas, Caerffili
CF83 8WT

www.hefcw.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Cylchlythyr | Circular

Derbyniadau teg mewn addysg uwch: derbyniadau cyd-destunol

Dyddiad:	24 Ionawr 2022
Cyfeirnod:	W22/01HE
Gorffen:	Penaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a Phenaethiaid colegau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol yng Nghymru
Ymateb erbyn:	Dydd Gwener 1 Ebrill 2022
Cyswllt	Jane Johns, Amanda Phillips jane.johns@hefcw.ac.uk; amanda.phillips@hefcw.ac.uk

Mae'r cylchlythyr hwn yn cadarnhau ein safbwynt ynghylch derbyniadau teg mewn addysg uwch, ac yn gofyn bod gwybodaeth am dderbyniadau teg, fel y bo'n berthnasol i dderbyniadau cyd-destunol, yn cael ei chyflwyno inni, gan gynnwys dolenni i wybodaeth ar y we a derbyniadau cyd-destunol.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat hygyrch arall, anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg | We welcome correspondence in Welsh and in English
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn cadarnhau ein safbwynt ynghylch derbyniadau teg mewn addysg uwch, ac yn gofyn bod gwybodaeth am dderbyniadau teg, fel y bo'n berthnasol i dderbyniadau cyd-destunol, yn cael ei chyflwyno inni, gan gynnwys dolenni i wybodaeth ar y we a derbyniadau cyd-destunol.

2. Rydym yn ymwybodol bod derbyniadau'n agwedd y mae gan sefydliadau gyfrifoldeb annibynnol drosto. Rydym yn parchu'r safbwynt hwn. Rôl CCAUC o ran derbyniadau teg, fel y nodir yn ein Strategaeth Gorfforaethol, yw herio a chynorthwyo darparwyr addysg uwch i ddarparu addysg a hyfforddiant hygyrch a chynhwysol i bawb a allai elwa ar hynny. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau'r canlynol: derbyniadau teg i addysg uwch; tegwch a chyfle cyfartal; cyfraddau cadw uchel; llwyddiant myfyrwyr mewn addysg uwch; ac mai Cymru yw'r dewis cyntaf fel cyrchfan astudio. Mae derbyniadau cyd-destunol a gwneud cynigion cyd-destunol cyfrifol a thryloyw yn rhan o system dderbyniadau deg.

3. Mae gwneud cynigion cyd-destunol yn gysylltiedig â'r holl foddau a dulliau derbyn, a gwneir defnydd eang o hynny gan ddarparwyr addysg uwch.

Y Cefndir

4. Dyma ddisgrifiad yr adroddiad *Fair admissions to higher education: recommendations for good practice* ('Adroddiad Schwartz', 2004) o system dderbyniadau deg:

> *'un sy'n rhoi cyfle cyfartal i bob unigolyn, waeth beth fo'i gefndir, i gael mynediad i gwrs sy'n addas i'w allu a'i ddyheadau. Mae pawb yn cytuno y dylid dewis ymgeiswyr ar sail teilyngdod: mae'r broblem yn codi wrth geisio diffinio hynny. Gallai teilyngdod olygu derbyn ymgeiswyr sydd wedi ennill y marciau uchaf mewn arholiadau, neu gallai olygu golwg ehangach ar gyflawniadau a photensial pob ymgeisydd'. (t6)*

5. Cyhoeddodd yr ASA Admissions, Recruitment and Widening Access yn 2018 i gynghori darparwyr ynghylch sicrhau ansawdd ar draws y llwybrau lluosog ac amrywiol sydd ar gael i fyfyrwyr gael mynediad i addysg uwch. Nodir yn yr adroddiad chwe egwyddor arweiniol yn sail ar gyfer cyflawni prosesau a gweithgareddau derbyn, recriwtio ac ehangu mynediad yn llwyddiannus drwy'r holl sector addysg uwch. Mae'r egwyddorion hyn yn cwmpasu ac yn adeiladu ar y seiliau a osodwyd yn adroddiad Schwartz, ac yn gyson ag Arferion Craidd y Cod Ansawdd[1]. Anogir darparwyr addysg uwch i weithredu egwyddorion yr ASA ar draws holl ehangder eu darpariaeth.

[1]Mae'r arferion craidd yn cynnwys 'Bod gan y darparydd system dderbyniadau ddibynadwy, deg a chynhwysol'. Mae hyn yn rhan o linell sylfaen Fframwaith Asesu Ansawdd Cymru

6. Ym mis Awst 2021, cyhoeddodd UUK Fair Admissions Review. Mae'r adolygiad yn cynnwys wyth o argymhellion ar gyfer derbyniadau teg a thryloyw, gan adeiladu ar adolygiad Schwartz.

7. Yn y blynyddoedd cynt, yng nghyd-destun derbyniadau teg, mae CCAUC wedi adolygu'r modd y mae darparwyr addysg yn mynd ati i wneud cynigion, gan gynnwys 'cynigion diamod amodol', a drafodir yn yr ail argymhelliad yn adroddiad UUK. Ystyriwn nad yw'r math hwn o gynnig amodol o fudd i fyfyrwyr na'r system addysg ehangach. Rydym wedi ysgrifennu at ddarparwyr addysg uwch yn gofyn iddynt ymatal rhag gwneud cynigion 'amodol diamod' (gweler y cylchlythyr W21/10HE). Rydym yn fodlon ar yr ymatebion a gawsom. Ar wahân i hyn, rydym yn cefnogi derbyniadau cyd-destunol rhesymol a chymesur a chynigion cyd-destunol sy'n deg a thryloyw ac er budd ymgeiswyr a myfyrwyr.

8. Yn nhrydydd argymhelliad adroddiad UUK, nodir y dylai prifysgolion:

> *'Byddwch yn uchelgeisiol wrth sicrhau bod arferion derbyn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad a chyfranogiad, gan gynnwys sicrhau mwy o dryloywder wrth ddefnyddio derbyniadau cyd-destunol. Mae hyn yn cynnwys prifysgolion a cholegau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon: cyfleu negeseuon clir a chyson ynghylch ystyr a diben cynigion cyd-destunol; defnyddio dangosyddion safonol i gefnogi cynigion cyd-destunol (data Prydau Ysgol am Ddim a'r Fynegai Amddifadedd Lluosog, a statws profiad o ofal); datblygu gofynion mynediad isaf ar gyfer ymgeiswyr a glustnodir o dan drefniadau cyd-destunol; a gwneud cynigion sicr i ymgeiswyr â phrofiad o ofal sy'n bodloni'r gofynion mynediad isaf.'*

Adolygiad CCAUC o dderbyniadau cyd-destunol

9. Yn ddiweddar, rydym wedi cynnal adolygiad desg o safbwyntiau darparwyr addysg uwch ynghylch derbyniadau cyd-destunol, sydd wedi'u cyhoeddi ar y we. Ar draws sector Cymru, gwelsom nad oedd modd cael hyd i'r wybodaeth, a bod y problemau canlynol yn codi, ymhlith eraill, lle bo'r wybodaeth honno ar gael:

    i. ei bod hi weithiau'n anodd cael hyd i wybodaeth am gynigion;

    ii. bod meini prawf cynigion cyd-destunol yn amrywio rhwng darparwyr;

    iii. bod yr wybodaeth sydd ar gael i ymgeiswyr am gynigion heb fod yn gyson nac yn dryloyw;

    iv. bod gwybodaeth am gynigion amodol ar y we weithiau o natur gyffredinol, a heb fod yn ddigon manwl i fod yn ddefnyddiol i ymgeiswyr;

    v. bod ystod y graddau lle gellir gwneud cynnig cyd-destunol wedi'i nodi yng ngwybodaeth rhai darparwyr, ond bod hynny wedi'i hepgor o wybodaeth y rhan fwyaf ohonynt.

10. O ganlyniad i'n hadolygiad, rydym o'r farn y dylai darparwyr addysg uwch yng Nghymru gyflwyno gwelliannau pellach i gynigion cyd-destunol a gwybodaeth am y broses o wneud cynigion cyd-destunol, er mwyn sicrhau bod yr elfen hon o fewn y broses dderbyniadau yn deg a thryloyw. Dyma gyfle i Gymru arwain y blaen ym maes derbyniadau teg, a gweithredu prosesau effeithiol ar gyfer gwneud cynigion amodol i gefnogi ehangu mynediad, profiad cadarnhaol i ymgeiswyr a myfyrwyr a chynnydd tuag at nod 'Cymru sy'n Fwy Cyfartal' yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

11. Ar sail tystiolaeth bod myfyrwyr o gefndiroedd tangynrychioledig hefyd yn profi anfantais wrth symud i astudiaethau ôl-radd, ystyriwn y dylai darparwyr addysg uwch hefyd adolygu a wneir defnydd priodol o wybodaeth gyd-destunol ar y lefel honno.

Camau y mae angen i ddarparwyr addysg uwch eu cymryd i wella derbyniadau teg fel y bo hynny'n berthnasol i dderbyniadau cyd-destunol

12. Dylai darparwyr addysg uwch roi cadarnhad inni o'r canlynol:
    i. eu bod wedi cynnal adolygiad, gan roi crynodeb o unrhyw newidiadau a wnaed/y bwriedir eu gwneud, er mwyn gwella hygyrchedd cynigion cyd-destunol a phrosesau cysylltiedig ar gyfer gwneud cynigion ers y cylch derbyniadau diwethaf, a gwybodaeth am hynny, gan roi ystyriaeth i argymhellion y DU a gwybodaeth am arferion effeithiol;
    ii. eu bod wedi sicrhau bod gwybodaeth ar gael am gynigion amodol, a'i bod yn hawdd cael hyd i'r wybodaeth honno ar eu gwefannau;
    iii. eu bod wedi ystyried, ers y cylch derbyniadau diwethaf, a yw arferion derbyniadau cyd-destunol yn gyson ar draws y sefydliad ac ar draws pob lefel a modd astudio;
    iv. eu bod yn cadarnhau'r prosesau llywodraethu a ddefnyddir i adolygu arferion derbyn yn rheolaidd, gan gynnwys prosesau derbyn cyd-destunol;
    v. eu bod yn darparu dolenni atom i wybodaeth gyhoeddedig am dderbyniadau cyd-destunol ar y we, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Amserlen

13. Rydym yn annog darparwyr addysg uwch i sicrhau bod prosesau derbyn cyd-destunol yn deg a thryloyw i rai sy'n ymgeisio am fynediad yn 2022. Gofynnir ichi gyflwyno'r wybodaeth a nodir ym mharagraff 12 uchod i Amanda Phillips (amanda.phillips@hefcw.ac.uk) erbyn dydd Gwener 1 Ebrill 2022.

Rhagor o wybodaeth / ymatebion i:

14. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Jane Johns (jane.johns@hefcw.ac.uk).

Asesu effaith ein polisïau

15. Rydym wedi dechrau ymarfer sgrinio asesu effaith er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb. Buom hefyd yn ystyried effaith y polisïau ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg yn sector AU Cymru, a'r effeithiau posibl ar y nodau a geir yn Nedd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk am ragor o wybodaeth am asesiadau effaith.

16. Wrth ddrafftio'r canllawiau hyn, ystyriwyd pa mor bwysig yw systemau a gweithdrefnau derbyn er mwyn cefnogi derbyniadau teg a chyfle cyfartal. Gwnaethom ystyried cyfeiriadau at systemau derbyn cyd-destunol effeithiol sy'n cynorthwyo pobl i gael mynediad i addysg uwch, ac i symud ymlaen drwy addysg uwch, gan gynnwys pobl ag anableddau a phobl o gefndiroedd amrywiol. Gallai derbyniadau cyd-destunol fod o gymorth i ymgeiswyr sy'n dymuno astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, neu barhau i astudio yng Nghymru, gan wneud Cymru yn ddewis cyntaf iddynt fel cyrchfan astudio. Mae derbyniadau teg yn cyfrannu at amryw o nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan gynnwys Cymru Gyfartal a Chymru Iachach ymhlith eraill.